**WHC (2022) 006**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** 21 Ebrill 2022

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: CYFLAWNI**

**Teitl:** Atgyfeirio Uniongyrchol gan Barafeddygon at Ofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod: Polisi Cymru Gyfan

**Dyddiad Dod i Ben / Adolygu:** 30 Ebrill 2026

**I'w weithredu gan:**

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol

Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Angen gweithredu erbyn:** Ar unwaith

**Anfonwyd gan:**

Nick Wood, Cadeirydd, Bwrdd y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng / Dirprwy Brif Weithredwr, GIG Cymru

Dr Chris Jones, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol

**Enw(au) Cyswllt GIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Sarah Jones, Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng; Cyflawni a Pherfformio; ChweNod.GofalBrysAcArgyfwng@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:**

https://llyw.cymru/atgyfeirio-uniongyrchol-gan-barafeddygon-ofal-mewn-argyfwng-ar-yr-un-diwrnod-polisi-cymru-gyfan-0

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/EM/0721/22

**Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG -**
Cadeiryddion

Ebrill 2022

Annwyl Gadeiryddion

**Atgyfeirio Uniongyrchol gan Barafeddygon at Ofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod: Polisi Cymru Gyfan**

Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu bod polisi i Gymru gyfan wedi'i gyhoeddi ar gyfer cefnogi Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) a'r byrddau iechyd i weithredu atgyfeiriadau uniongyrchol gan barafeddygon at Ofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod (SDEC). Mae copi o'r polisi i'w gael YMA.

Cafodd y ddogfen hon ei chomisiynu ar ran y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ac fe'i datblygwyd gan yr arweinydd clinigol ar gyfer y Rhaglen Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC), ynghyd ag arweinwyr 'SDEC' o fyrddau iechyd, ac arweinwyr rhanbarthol a chenedlaethol o YGAC.

Mae'n disgrifio'r egwyddorion cyffredinol sydd i'w mabwysiadu gan dimau clinigol 'SDEC' a pharafeddygon YGAC wrth weithredu llwybrau atgyfeirio uniongyrchol gan barafeddygon at wasanaethau Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod lleol.

Er mwyn adlewyrchu'r modelau gwasanaeth lleol, bydd angen i bob bwrdd iechyd gytuno gydag YGAC ar y mecanweithiau er mwyn galluogi i drafodaeth 'clinigydd i glinigydd' gael ei chynnal. Y drafodaeth hon fydd yn sail ar gyfer derbyn cleifion i wasanaethau 'SDEC'.

Bydd y gwaith o weithredu'r canllawiau hyn yn cael ei gefnogi gan Ruth Alcolado, arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer y Rhaglen Gofal mewn Argyfwng ar yr Un Diwrnod.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.